Fflecsi - amodau cludo ychwanegol

Diweddarwyd 25 Mehefin 2020

Cyflwyniad

Mae'r amodau cludo hyn (**Amodau Cludo Fflecsi**) yn berthnasol i wasanaethau fflecsi a ddarperir gan New Adventure Travel (NAT), yn ychwanegol at eu Hamodau Cludo safonol. Er gwaethaf y datganiad yn yr Amodau Cludo safonol bod yr amodau hynny yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng NAT a'i gwsmeriaid, bydd Amodau Cludo Fflecsi a'r Amodau Cludo safonol yn berthnasol wrth ddefnyddio unrhyw wasanaeth fflecsi a ddarperir gan NAT.

Os bydd gwrthdaro rhwng Amodau Cludo Fflecsi a'r Amodau Cludo safonol, Amodau Cludo Fflecsi fydd yn drech.

Bydd Amodau Cludo Fflecsi yn newid o bryd i'w gilydd a bydd y fersiwn ddiweddaraf i'w gweld ar wefan fflecsi ac yn https://www.natgroup.co.uk/conditions-of-carriage/

Proses cofrestru cwsmeriaid

Er mwyn archebu gwasanaeth fflecsi ymlaen llaw, gall cwsmeriaid:

- lawrlwytho ap ffôn symudol fflecsi i dabled neu ffôn clyfar cydnaws a chofrestru i ddefnyddio gwasanaethau fflecsi.
- ffonio linell gymorth cwsmeriaid fflecsi ar 0300 234 0300

Bob tro byddwch chi am archebu gwasanaeth fflecsi, neu ei newid, bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif, ffonio'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid neu ddefnyddio'r ap symudol gyda'ch manylion cofrestru.

Y broses archebu a manylion

Trafnidiaeth Cymru sy'n gweithredu proses archebu fflecsi. Mae'r rhain yn destun amodau a thelerau ar wahân, a byddwch wedi cytuno i'r rhain wrth archebu lle ar unrhyw wasanaeth fflecsi Mae Amodau Cludo Fflecsi yn berthnasol i gerbyd gwasanaeth fflecsi yn unig, nid i'r broses archebu.

Ar ôl archebu'ch lle, byddwch yn cael cadarnhad o ddyddiad, amser a lleoliad cychwyn eich taith, fel a ganlyn – yn dibynnu ar sut wnaethoch chi archebu'r gwasanaeth.

- **Cais fflecsi:** Mae'r cadarnhad o archeb y cwsmer yn cael ei gadw ar y cais fflecsi lle gall y cwsmer osod nodyn atgoffa teithio os oes ganddo ffôn clyfar neu dabled. Bydd y cais hefyd yn nodi rhif cofrestru'r bws, man casglu'r teithiwr a'r amser cyrraedd yn fras. Gallwch hefyd wneud cais i dderbyn neges destun i'r rhif a ddarparwyd wrth gofrestru am wasanaethau fflecsi.

- **Canolfan alwadau:** Os defnyddiwyd canolfan alwadau i archebu lle, bydd y cwsmer yn derbyn cadarnhad ar lafar gan yr asiant archebu am fanylion eu siwrnai. Gellir anfon neges destun i gadarnhau'r siwrnai hefyd, at y rhif a ddarparwyd wrth gofrestru am wasanaethau fflecsi. Hefyd, bydd negeseuon testun ychwanegol yn cael eu hanfon at y cwsmer ar y diwrnod teithio i'w atgoffa o'i fan casglu ac amser cyrraedd y cerbyd yn fras. Os nad yw taith ar gael, rhoddir gwybod i'r cwsmer a chynigir siwrnai amgen os oes modd.

Mae'n ofynnol i gwsmeriaid ganslo unrhyw archebion nad oes eu hangen mwyach neu os nad ydynt yn teithio, a pheidio ag archebu mwy o deithiau nag sydd raid.

Prisiau tocynnau, tocynnau a phrosesau talu

Mae'n rhad ac am ddim i archebu lle, a does dim ffioedd na thaliadau i'r cwsmer gadw lle ar fws. Nid NAT sy'n rheoli'r broses archebu, ac nid yw NAT yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ran y broses archebu.

Rhaid talu am siwrneiau ar wasanaethau fflecsi yn unol ag amodau cludo safonol a bydd yr amodau cludo safonol hefyd yn berthnasol o safbwynt unrhyw dystiolaeth arall o hawl i deithio, megis tocyn teithio rhatach.

Eich cyfrifoldeb chi yw cael tocyn dilys ar gyfer bob cam o'r daith a chario unrhyw gerdyn adnabod cysylltiedig sydd ei angen ar gyfer prynu'r tocyn sydd gennych, fel cerdyn myfyriwr, prawf o'ch oedran, gyda chi wrth deithio.

Mynd ar y cerbyd ac oddi arno

Bydd adran "Mynd ar/oddi ar y bws" yr amodau cludo safonol yn berthnasol. Rhaid i gwsmeriaid fod yn y safle bws perthnasol (gan gynnwys safleoedd bysiau rhithwir) ar yr adeg a bennir yn y neges archebu, i gael eu casglu. Bydd cwsmeriaid yn cael gwybod am eu lleoliad a'u hamser casglu wrth archebu.

Manylion y cwsmer

Wrth fynd ar y bws, efallai y bydd y gyrrwr yn gofyn i chi gadarnhau'r manylion cyswllt a ddefnyddiwyd i wneud eich archeb. Os ydych chi wedi archebu a bod mwy nag un yn teithio gyda chi, efallai y bydd y gyrrwr hefyd yn gofyn am gadarnhad o fanylion cyswllt eich cyd-deithwyr hefyd.

Safleoedd bysiau rhithwir

Mewn ardaloedd lle nad yw safleoedd bws yn agos at fannau casglu a gollwng teithwyr, efallai bod ‘safleoedd bysiau rhithwir’ lle gellir casglu a gollwng teithwyr, lle y mae'n ddiogel iddynt wneud hynny. Os caiff cwsmer ei gasglu o safle rhithwir, bydd yn cael gwybod am union leoliad y safle hwnnw wrth archebu’r daith. Hefyd, rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i leoliad y safle bws rhithwir.

Cwsmeriaid heb archebu ymlaen llaw

Gall cwsmeriaid deithio ar wasanaeth fflecsi heb drefnu ymlaen llaw os ydyn nhw’n teithio rhwng safleoedd bysiau sefydlog sydd eisoes yn rhan o amserlen gwasanaeth fflecsi neu os ydyn nhw’n cael eu cludo fel teithwyr ychwanegol sy'n mynd gyda phobl eraill a archebodd ymlaen llaw. Efallai na fydd cwsmeriaid oedd heb archebu ymlaen llaw, yn cael teithio ar wasanaeth fflecsi os nad oes digon o le ar y bws, gan ystyried yr holl archebion ar gyfer y daith honno – neu os byddai gadael i’r cwsmer hwnnw ddod ar y bws yn arwain 20 munud a mwy o oedi i amseroedd teithio’r rhai sydd eisoes wedi archebu lle ymlaen llaw.

Y darn cyfreithiol

Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y telerau a bennir yn adran "Amendments" yr amodau cludo safonol (darn cyfreithiol) berthnasol i'r Amodau Cludo Fflecsi hyn hefyd.